
Chartered Institute of Housing
Cymru

# Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-2025



# Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-2025

Chartered Institute of Housing Cymru

## Cefndir

Ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25. Dyma'r gyllideb olaf o fewn y dull ariannu aml-flwyddyn.

Yn ystod y broses ddrafftio, cydnabu Llywodraeth Cymru fod hon yn gylch cyllideb anodd am fod gwerth y gyllideb a ddarparwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU £1.3b yn llai. Cafodd hyn effaith sylweddol ar yr arian sydd ar gael i'w fuddsoddi yma yng Nghymru.

Wrth osod y gyllideb, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosib, ond mae hyn yn golygu cymryd cyllid o feysydd eraill. Hyd yn oed yn erbyn y cefndir hwn o gyfyngiadau ariannol mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal lefelau buddsoddi cyfalaf cyfredol. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2024/25 yw £21b o wariant ar adnoddau a £2.7b o wariant cyfalaf.

## Ymrwymiad parhaus i dai

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ei lefel uchaf erioed o fuddsoddiad i ddatblygu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd yng Nghymru. Bydd buddsoddiad cyfalaf parhaus o £365m yn 2024/25 i helpu cyrraedd y targed datblygu.

Er i ni groesawu'r ymrwymiad parhaus i gartrefi carbon isel newydd, ni fydd lefel y cyllid yn mynd mor bell ag y gwnaeth ar ddechrau'r broses gyllidebol aml-flwyddyn oherwydd effaith chwyddiant uchel a chyfraddau benthyca.
Er mwyn cefnogi'r sector tai cymdeithasol i ddatgarboneiddio'r cartrefi y maent yn eu darparu, mae Llywodraeth Cymru' yn darparu £92m i gefnogi datgarboneiddio cartrefi cymdeithasol presennol ynghyd â £108m ar gyfer taliadau gwaddol LSVT.

Mae'r cyllid cyfalaf o £37m a ddyrannwyd ar gyfer Diogelwch Adeiladau a ddarparwyd drwy Gronfa Diogelwch Adeiladau Cymru bellach yn cael ei symud i gyllid refeniw. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan nad gostyngiad yn yr ymrwymiad cyllideb yw hwn, ond yn newid sy'n adlewyrchu'n agosach pryd y bydd angen yr arian hwn.

I gefnogi'r ymdrech i adeiladu tai'n gyffredinol ymhellach, mae'r gyllideb yn cynnwys £72m i gynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai ar y farchnad ochr yn ochr â £4 miliwn ar gyfer cynllun Cymorth Prynu Llywodraeth Cymru.

Bydd y rhaglen cartrefi gwag yn parhau yn 2025-26 gyda chyfanswm ymrwymiad o £50m dros gyfnod y rhaglen. Bydd hyn yn dod â 2,000 o gartrefi yn ôl i ddefnydd.

## Toriad mewn termau real i gyllid atal digartrefedd

Yn 2023/24 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid dangosol ychwanegol o £5 miliwn ar gyfer gwasanaethau atal digartrefedd yn 2024/25. Mae hyn bellach wedi'i ostwng i gynnydd o £2m ar gyfer 2024/25. Dyma doriad o £3m i bob pwrpas yn y cyllid atal digartrefedd. Mae cyfanswm yr arian sydd ar gael ar gyfer atal digartrefedd bellach yn £46.7m. Mae'r cyllid ar gyfer y grant cymorth tai wedi'i gadw ar £166.7m.

Er i ni groesawu cadw lefel y cyllid ar gyfer y grant cymorth tai, bydd yn doriad mewn termau real. Ynghyd â thoriad effeithiol i gyllid atal digartrefedd, mae hyn yn siomedig ar adeg pan fo'r defnydd o lety dros dro'n cynyddu gyda 11,200 o unigolion, gan gynnwys 3,500 o blant, yn cael eu rhoi mewn llety dros dro yng Nghymru. Y ffordd orau o ostwng y defnydd o lety dros dro yw atal digartrefedd yn y lle cyntaf. Rhywbeth a fydd yn anoddach i'w wneud gyda chyllideb lai yn 2024/25.

.

# Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-2025

## Cyllid awdurdodau lleol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal y setliad llywodraeth leol ar 3.1 y cant gyda chyfanswm cyfraniad cyllid craidd blynyddol o £5.7b. Er mwyn sicrhau nad oes gan unrhyw awdurdod lleol setliad o lai na dau y cant. Er i Lywodraeth Cymru weld hyn fel rhywbeth sy'n diogelu cyllidebau, mae'r setliad yn is na'r gyfradd chwyddiant gyfredol o 3.9 y cant. Mae hyn yn golygu y bydd awdurdodau lleol sydd eisoes yn adrodd am anawsterau cyllidebol yn cael toriad incwm arall mewn termau real.

Ynghyd â cholled yn y gyllideb atal a'r ddarpariaeth barhaus o lety dros dro ar gyfer dros 11,000 o unigolion, mae gwasanaethau digartrefedd statudol yn debygol o deimlo effaith llai o adnoddau a allai effeithio ar y gwaith o daclo digartrefedd yng Nghymru.

## Ymrwymiadau cyllidebol eraill

Mae ymrwymiad i fuddsoddi £450m pellach mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan fynd â'r cyfanswm gwariant ar eu cyfer i £11.3bn.

Bydd cefnogaeth barhaus i'r aelwydydd hynny yng Nghymru sydd fwyaf mewn perygl o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, gyda £38.5m yn cael ei ddyrannu i'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r cyllid ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol wedi'i gynyddu £3.5m, gan fynd â chyfanswm y cyllid i £10.7m. Bydd hyn yn parhau i gefnogi'r ymadawyr gofal ifainc sy'n cymryd rhan yn y peilot.

Mae'r gyllideb o £8 miliwn ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) wedi'i diogelu, gan adlewyrchu pwysigrwydd y gwaith o amddiffyn y rhai sy'n profi VAWDASV.

Mae Llywodraeth Cymru' yn ail-flaenoriaethu £15.5m o raglen Wcráin, gan fynd â'r cyfanswm sydd ar gael yn 2024/25 i £4.5m. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cyrraedd a'r llwyddiant wrth sicrhau llety i'r rhai a gyrhaeddodd o Wcráin yn wreiddiol.

## Barn CIH Cymru

Deallwn yn iawn fod Llywodraeth Cymru yn wynebu toriad o £1.3b mewn termau real yn y setliad cyllidebol, a hefyd y pwysau y mae'r GIG yn eu profi yn sgil covid. Ac eto, y gwir amdani yw ein bod yng nghanol argyfwng tai parhaus a systematig gyda 11,200 o bobl gan gynnwys 3,409 o blant mewn llety dros dro. At hynny, o fis Hydref 2023, mae 139,000 o bobl, gan gynnwys 34,000 o blant, yn aros am dai cymdeithasol yng Nghymru.

Croesawn ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygu 20,000 o gartrefi newydd ar rent cymdeithasol. Bydd cynyddu'r cyflenwad o gartrefi'n rhan annatod o ddod â'r argyfwng tai a digartrefedd i ben. Er hynny, dim ond un rhan o'r ateb yw cyflenwad - mae angen i ni atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf hefyd.

Mae awdurdodau lleol yn wynebu toriad arall mewn termau real yn y gyllideb, ynghyd â gostyngiad o £3m yn y cyllid atal o gymharu â'r hyn a oedd wedi'i gynnwys yng nghyllideb y llynedd o ran cyllid dangosol. Daw hyn ar adeg pan fo'r cyfanswm a wariwyd gan awdurdodau lleol i ddarparu llety dros dro wedi codi o £5.6m yn 2018, i £42.9m yn 2022 – sef cynnydd saith gwaith . Amlygodd ein cipolwg ar y sector diweddaraf i hanner y gweithwyr tai proffesiynol deimlo nad oes digon o adnoddau a bod gwasanaethau'n dioddef. Felly, os oedd hyn yn wir cyn y gyllideb hon mae'n debygol y bydd effaith bellach ar y gwaith o daclo digartrefedd yng Nghymru.

# Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-2025

Chartered Institute of Housing Cymru

Mae arnom angen ymagwedd system gyfan at ymdrin â thai yng Nghymru. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyn sy’n cynnig newid radical i’r ffordd yr ydym yn taclo digartrefedd yng Nghymru ond mae angen darparu lefelau cyfatebol digonol o gyllid i alluogi gwasanaethau digartrefedd statudol rheng flaen a gwasanaethau cymorth i wneud eu gwaith er mwyn sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru'n digwydd yn anaml, ei fod yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.

Credwn y dylai tai fod yn genhadaeth sylfaenol ar gyfer y llywodraeth gan y bydd cartref addas, cadarn a fforddiadwy yn gwella canlyniadau iechyd, yn lleihau tlodi ac yn cynyddu gweithgarwch economaidd ar draws Cymru. Er hynny, mae tai ar gyfartaledd wedi derbyn dau y cant y flwyddyn yn unig o gyfanswm cyllideb Cymru rhwng 2006 a 2022. Credwn nad yw hyn yn adlewyrchu difrifoldeb yr argyfwng tai yr ydym yn ei lywio ar hyn o bryd. Gwyddom fod yna benderfyniadau anodd ar gyfer gweinidogion yn yr hinsawdd economaidd bresennol ond oni bai ein bod yn gwneud darparu cartref diogel, cynaliadwy a fforddiadwy i bawb yng Nghymru yn genhadaeth graidd, bydd yn costio mwy i bwrs y wlad yn y tymor hir, ar ben y trallod dynol tra wirioneddol a achosir gan fethu â chael lle i'w alw'n gartref.

## Mwy o wybodaeth

Bydd CIH Cymru yn parhau i ymgysylltu â phob plaid wleidyddol ar sut gall y gyllideb hon ymateb i anghenion gweithwyr tai proffesiynol ar draws Cymru. Os hoffech ddarparu eich barn am y gyllideb ddrafft, cysylltwch â: cerys.clark@cih.org.